

## Difrod a dyfalbarhad wedi Corwynt Mangkhut

Tarodd Corwynt Mangkhut (Ompong fel y mae pobl y Pilipinas yn ei alw) ardal ogleddol ynysoedd y Pilipinas dydd Sadwrn diwethaf yn oriau mân y bore. Dyma'r corwynt cryfaf i daro'r rhanbarth ers Corwynt Hayian yn 2013 ac roedd lled y storm bron ddwywaith maint Corwynt Hayian!

O ddarllen am ymateb Cymorth Cristnogol a'r mudiadau eraill mae'n amlwg fod cydweithio agos iawn rhwng y gwahanol asiantaethau gyda thimau asesu a monitro'n cael eu hanfon i ardaloedd gwahanol i adrodd yn ôl yn ganolog. Mae'r rhannu'r wybodaeth yma'n arwydd o symud ymlaen o sefyllfa lle'r oedd asiantaethau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd am arian ac yn cadw gwybodaeth oddi wrth ei gilydd. Darllen calonogol dros ben.

Prif gonsyrn Cymorth Cristnogol a'n partneriaid yw'r cymunedau hynny sy'n fwyaf anodd eu cyrraedd – pentrefi mynyddig a chymunedau ar yr ynysoedd bychain lle na fydd timau achub ac asesu'n eu cyrraedd ar unwaith. Y gobaith yw bod y cymunedau hyn wedi derbyn rhybuddion ymlaen llaw am y corwynt a bod eu gwaith ymarfer ar gyfer argyfyngau a'u paratodau am fod yn gynhaliath iddynt nes i gymorth llwyddo i'w cyrraedd ar draws tirwedd a ffyrdd fydd wedi cael eu chwalu gan rym y storm.

Bydd Cymorth Cristnogol yn ymateb drwy roi grantiau ariannol bychain i bobl fedru



prynu'r hyn y maent eu hangen yn lleol – er mwyn sicrhau fod ganddynt reolaeth eu hunain dros y cyfnod cyntaf a bod economi leol yn cael adferiad buan. Bydd rhaid hefyd, mae'n debyg, dosbarthu rhai nwyddau mewn ardaloedd lle mae'r dinistr gwaethaf a bydd yr asesiadau a'r

O Dduw, ein noddfa a'n nerth,  
Ein cymorth mewn cyfyngder.

Boed i'th drugaredd gofleidio gwledydd lle mae tir wedi llithro; boed i'th drugaredd gofleidio gwledydd lle mae'r tywydd wedi chwalu bywoliaethau.

Rho gymorth i'r rhai sy'n ailadeiladu cartrefi a nertha'r rhai sy'n ailgynnau gobaith er mwyn i gymunedau cyfan wynebu'r dyfodol heb ofn.



Amen.

cydweithio rhyngasiantaethol yn galluogi hynny i ddigwydd yn effeithiol.

Consyrn arall yw bod Corwynt Ompong wedi taro ar ddechrau cyfnod y cynhaeaf ac wedi peri dinistr i gnydau a chaeau gan effeithio'n ddifawr ar fywoliaeth a sicrwydd bwyd y boblogaeth dros y misoedd nesaf. Mae partner Cymorth Cristnogol RWAN eisoes yn paratoi i ymateb i'r argyfwng bwyd yma ac yn barod i ddosbarthu hadau ar gyfer ail-blannu cyn gynted ag y bydd y llifogydd wedi gostwng.

Dwi'n cofio cyn apêl *Corwynt Cariad* ymweld ag un pentref yn y Pilipinas lle'r oedd RWAN wedi cefnogi'r ffermwyr i addasu eu dulliau ffermio ac arallgyfeirio i greu busnes compost. Roedd ffermwyr y gymuned honno wedi llwyddo i anfon 300 sach o gompost i helpu ffermwyr ardal Mindanao yn neheubarth y Pilipinas ar ôl cyfnod o sychder drwg. Wnâi fyth anghofio'u balchder o fod, am y tro cyntaf, mewn sefyllfa i gynnig cymorth i eraill.

Wrth i ni wynebu trychineb arall yn y newyddion, gadewch i ni, fel nhw, ddiolch ein bod mewn sefyllfa i fedru rhoi.

Mae Cymorth Cristnogol wedi paratoi gweddi arbennig i ni ei defnyddio dros y Suliau nesaf i gofleidio pobl y Pilipinas yn ein hoedfaon – rhannwch hi'n eang os gwelwch yn dda.

**Anna Jane Evans**

